**Datganiad Preifatrwydd Ymgeiswyr**

Drwy gydol y Datganiad hwn, mae'r termau "Y Brifysgol", "ni", ac "ein" yn cyfeirio at Adran Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol Prifysgol Abertawe (h.y. y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr, y Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol etc) a Cholegau cysylltiedig. Mae'r termau "chi", "eich", a/neu "testun y data" yn cyfeirio at y rhai hynny sydd wedi mynegi diddordeb mewn dod yn fyfyriwr yn y Brifysgol yn y dyfodol (yn ystod y cam ymholi a'r cam cyflwyno cais).

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut y bydd yr Is-adrannau Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr yn Adran Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol Prifysgol Abertawe yn trin ac yn defnyddio eich gwybodaeth a'ch data personol yn ystod y broses recriwtio a chyflwyno cais.

Bydd casglu data personol gennych chi yn rhoi i ni ddealltwriaeth well o'r hyn sydd o ddiddordeb i chi, bydd yn ein galluogi i gadw mewn cysylltiad â chi i roi gwybod i chi am ein gweithgareddau a'n datblygiadau, a bydd yn ein helpu i'ch paratoi chi'n dda i fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe yn y dyfodol.

Bydd y Datganiad canlynol yn dangos y ffyrdd penodol y bydd y Brifysgol yn defnyddio eich data personol at ddibenion derbyn a recriwtio myfyrwyr.

Rydym yn ymrwymedig i ddiogelu'ch gwybodaeth ac i fod yn dryloyw am yr wybodaeth rydym yn ei chadw. Fodd bynnag, os hoffech ddarllen mwy am ymrwymiad y Brifysgol i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol ac i fod yn dryloyw, ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol.

**Pwy yw'r Rheolydd Data a sut gallwch gysylltu ag ef?**

Prifysgol Abertawe yw'r rheolydd data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau myfyrwyr yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UK GDPR).

Manylion Cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Brifysgol Abertawe Dîm Diogelu Data a gellir cysylltu â'r tîm drwy e-bostio dataprotection@abertawe.ac.uk

**Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi?**

Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch chi wrth ryngweithio â chi fel darpar fyfyriwr, er enghraifft pan fyddwch yn gwneud ymholiad, yn gofyn am brosbectws, yn anfon e-bost atom a/neu'n cyflwyno cais i astudio gyda ni. Gallwn hefyd dderbyn gwybodaeth amdanoch chi o'r tu allan i'r Brifysgol, er enghraifft gwybodaeth gan UCAS mewn perthynas â cheisiadau UCAS israddedigion, yn ogystal â gwybodaeth gan ganolwyr. Dyma rai o'r mathau o wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu:

**Casglu gwybodaeth a gyflwynir drwy ffurflenni neu drydydd partïon**

• Manylion cyswllt

• Gwybodaeth bersonol, megis dyddiad geni at ddibenion diogelu plant a phobl sy'n iau na 18 oed etc.

• Profiad a chyrhaeddiad addysgol blaenorol

•Hanes cyflogaeth

• Gwybodaeth am fewnfudo (megis manylion pasbort, hanes mewnfudo a hyfedredd iaith Saesneg)

• Gwybodaeth ariannol pan fo angen, er enghraifft, i asesu cymhwysedd am ysgoloriaeth neu gymhwysedd i gyflwyno cais am ddatganiad CAS.

• Gwybodaeth iechyd (gan gynnwys unrhyw anableddau) sy'n perthyn i gategorïau arbennig o ddata lle mae angen cydsyniad penodol ar y cam cyflwyno cais.

•Holiadur Iechyd - Addasrwydd i Ymarfer - Meddygaeth a Choleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd

• Copïau o ddogfennau prawf adnabod sy'n ofynnol ar gyfer gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

• Ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol: copïau o basbortau, fisâu ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Swyddfa Gartref.

• Ar gyfer myfyrwyr o'r DU a myfyrwyr rhyngwladol: copïau o basbortau neu unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol i asesu statws ffïoedd, megis Cardiau BRP, Codau Rhannu, dogfennau prawf o breswylio

**Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Yn ystod y broses recriwtio a chyflwyno cais, byddwn yn defnyddio eich data personol at ddiben asesu eich cymhwysedd i fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe yn y dyfodol. Rydym yn prosesu'r wybodaeth at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys y canlynol:

| Diben | Sail a Chyfiawnhad Cyfreithiol |
|---|---|
| Defnyddir ymholiadau (neu fynegiannau o ddiddordeb) a dderbynnir gan y Brifysgol i greu cofnod yn ein cronfa ddata, sy'n ein galluogi i'ch tywys drwy gamau nesaf y broses. | **Cyfiawnhad**<br>Drwy gysylltu â ni rydych chi wedi mynegi diddordeb mewn astudio ar gwrs gradd yn Abertawe. Rydym yn nodi eich bod yn ddarpar fyfyriwr yn ystod y cyfnod pan fyddwch yn 'wir ymholwr'<br><br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda thestun y data neu i **gymryd camau ar gais testun y data cyn ymrwymo i gontract.** |

| | |
|---|---|
| Defnyddir ceisiadau a gyflwynir i'r Brifysgol i asesu eich cymhwysedd i ddod yn fyfyriwr yn Abertawe. (Nid yw hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw wybodaeth iechyd a ddatganwyd). | **Cyfiawnhad**<br>Wrth i chi gyflwyno cais rydym yn nodi eich bod yn ddarpar fyfyriwr yn ystod y cyfnod pan fyddwch yn 'wir ymgeisydd'.<br><br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda thestun y data neu i **gymryd camau ar gais testun y data cyn ymrwymo i gontract.** |

| O ganlyniad i'ch cais, byddwn hefyd yn defnyddio: | |
|---|---|
| Gwybodaeth ategol, megis asesiadau ffïoedd ac asesiadau hanes mewnfudo. | **Cyfiawnhad**<br>I sicrhau bod asesiad cywir o'ch ymholiad a/neu'ch cais yn cael ei gynnal, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth ategol ychwanegol.<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda thestun y data neu i **gymryd camau ar gais testun y data cyn ymrwymo i gontract.**<br><br>Mae'n rhaid prosesu eich data personol i gyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y Brifysgol. |
| Bydd angen holiaduron ar gyfer cyrsiau ym maes Iechyd Proffesiynol. | **Cyfiawnhad**<br>Mae'r gyfraith yn gosod dyletswydd arnom i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr ar ein rhaglenni proffesiynol yn addas i ymarfer yn yr yrfa maent wedi'i dewis. Felly mae gwiriadau'r heddlu a gwiriadau iechyd yn ofynion y cwrs.<br><br>**GWIRIADAU IECHYD**<br>**Y Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR i brosesu categorïau arbennig o ddata.**<br>Mae testun y data wedi rhoi cydsyniad pendant i'r prosesu.<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda thestun y data neu i **gymryd camau ar gais testun y data cyn ymrwymo i gontract.**<br><br>**GWIRIADAU'R HEDDLU** |

| | |
|---|---|
| | **Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda thestun y data neu i **gymryd camau ar gais testun y data cyn ymrwymo i gontract.**<br><br>Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y Rheolydd.<br><br>Seiliau cyfreithlon eraill yn Neddf Diogelu Data 2018 i brosesu data categori arbennig:<br><br>• Atodlen 1 Rhan 2 Paragraff 8 – atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon<br><br>• Atodlen 1 Rhan 2 Paragraff 9 - Diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd<br><br>• Atodlen 1 Rhan 1 Paragraff 1 - Cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a diogelwch cymdeithasol |
| Cwynion ac Apeliadau | **Cyfiawnhad**<br>I sicrhau cysondeb a thegwch yn ystod y broses recriwtio a derbyn myfyrwyr, mae gennym weithdrefn cwynion ac apeliadau, a allai ofyn am wybodaeth ychwanegol.<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y Rheolydd. |
| Gwybodaeth mewn perthynas â materion mewnfudo | **Cyfiawnhad**<br>Os oes angen fisa ar fyfyrwyr i ddod i'r DU, yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol iddynt gyflwyno gwybodaeth ychwanegol.<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol i fodloni rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolydd yn ddarostyngedig iddi.<br><br>Mae'n rhaid prosesu eich data personol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| Cyfathrebu â chi:<br><br>Gan ddibynnu ar yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn ystod y broses recriwtio a derbyn myfyrwyr, gallwn gyfathrebu â chi drwy'r post, dros y ffôn (a ffôn symudol) neu drwy gyfrwng electronig, e-bost yn bennaf.<br><br>Os byddwch yn derbyn unrhyw negeseuon dieisiau, gallwch ddewis peidio â derbyn ein negeseuon e-bost ar unrhyw adeg.<br><br>Gallwn hefyd ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion busnes er mwyn cyfleu gwybodaeth berthnasol i chi a fydd yn eich tywys drwy'r broses. *Sylwer y dylai defnyddwyr platfformau'r cyfryngau cymdeithasol allu newid dewisiadau o fewn gosodiadau pob platfform.*<br><br>Gallwch hefyd gysylltu â ni'n uniongyrchol os hoffech chi ddiweddaru'ch dewisiadau. | **Cyfiawnhad**<br>At ddiben cyfathrebu angenrheidiol mewn perthynas â'ch astudiaethau yn y dyfodol:<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda thestun y data neu i **gymryd camau ar gais testun y data cyn ymrwymo i gontract.**<br><br>Wrth anfon gwybodaeth ategol atoch a fydd yn eich tywys drwy'r broses:<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn i'r rheolydd neu drydydd parti ddilyn buddiannau dilys, ac eithrio pan fo buddiannau neu hawliau a rhyddidau sylfaenol testun y data'n drech na buddiannau o'r fath.<br><br>***Ein buddiannau dilys penodol yw:***<br>Gall y Brifysgol gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau i fyfyrwyr y tu hwnt i'r prif nod o ddarparu addysg. Mae'n bwysig y gallwn gynnig y gwasanaethau hyn er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.<br><br>Mae cynorthwyo myfyrwyr cymaint â phosib yn y broses ymgeisio hefyd yn sicrhau eu bod yn cwblhau eu cais ac yn penderfynu astudio gyda ni. |
| Digwyddiadau ychwanegol rydym yn eu cynnig, megis y Gwasanaeth Cwrdd a Chyfarch, Cynadleddau Myfyrwyr/Addysgwyr etc. | **Cyfiawnhad**<br>Bydd gan yr holl wasanaethau ychwanegol a gynigir gennym ni ddull cofrestru a bydd cydsyniad yn rhan ofynnol o hyn.<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae Testun y Data wedi cydsynio i'r prosesu. |
| Nawdd ac Ysgoloriaethau | **Cyfiawnhad**<br>Mae nifer o gynlluniau nawdd ac ysgoloriaethau gwahanol ar gael yn ystod y broses.<br><br>Gan ddibynnu ar y math o ysgoloriaeth rydych yn ei derbyn, mae'r sail gyfreithiol yn wahanol. |

| | |
|---|---|
| | Er enghraifft: os ydych chi wedi cyflwyno cais am yr ysgoloriaeth<br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae Testun y Data wedi cydsynio i'r prosesu.<br><br>Os cafodd yr ysgoloriaeth ei dyfarnu i chi'n awtomatig oherwydd eich bod yn bodloni rhestr benodol o feini prawf (megis graddau) yna 'angen cytundebol' yw'r sail gyfreithiol.<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda thestun y data neu i **gymryd camau ar gais testun y data cyn ymrwymo i gontract.** |
| Dadansoddi a Phroffilio | **Cyfiawnhad**<br>Mae'n bwysig i ni allu defnyddio data at ddibenion ymchwil i'r farchnad er mwyn llywio ein gweithgarwch marchnata yn y dyfodol a chynnal ein gallu i gystadlu yn y farchnad. Fel arfer, data dienw yw hwn a ddefnyddir i nodi/ddadansoddi tueddiadau etc, ond gellir defnyddio data personol hefyd.<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn i'r rheolydd neu drydydd parti ddilyn buddiannau dilys ac eithrio pan fo buddiannau neu hawliau a rhyddidau sylfaenol testun y data'n drech na buddiannau o'r fath.<br><br>***Ein buddiannau dilys penodol yw:*** mae'n bwysig i'r Brifysgol ddefnyddio data at ddibenion ymchwil i'r farchnad er mwyn llywio ei gweithgarwch marchnata yn y dyfodol a chynnal ei gallu i gystadlu yn y farchnad. |

Y sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR rydym yn dibynnu arni yw cyflawni contract yn y dyfodol pan gewch yn cael eich nodi fel 'gwir ymholwr' a/neu 'wir ymgeisydd'.

Diffiniadau: -

| | |
|---|---|
| 'Gwir Ymholwr' | dim ond yn ystod y flwyddyn pan gyflwynwyd ymholiad y mae ymgeisydd yn 'wir ymholwr'. Os nad yw wedi cyflwyno cais erbyn diwedd cyfnod cofrestru'r flwyddyn academaidd |

| | |
|---|---|
| | benodol honno, nid yw'n 'wir ymholwr' mwyach a chaiff ei wahodd i optio i mewn i dderbyn cyfathrebiadau pellach, h.y. os yw ymgeisydd wedi cyflwyno ymholiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19, ac os nad yw wedi cyflwyno cais erbyn 15 Hydref 2018, anfonir gwahoddiad i optio i mewn. Os yw'n penderfynu peidio ag optio i mewn, caiff ei gofnod ei newid i 'peidiwch â chysylltu'. Fodd bynnag, caiff y data personol ei storio yn y CRM tan ddiwedd y cyfnod cadw neu nes y ceir cyfarwyddyd i'w ddileu. |
| 'Gwir Ymgeisydd' | dim ond yn ystod y flwyddyn pan gyflwynir cais y mae ymgeisydd yn 'wir ymgeisydd'. Os nad yw wedi cofrestru erbyn diwedd cyfnod cofrestru'r flwyddyn academaidd benodol honno, nid yw'n 'wir ymgeisydd' mwyach a chaiff ei wahodd i optio i mewn i dderbyn cyfathrebiadau pellach, h.y. os yw ymgeisydd wedi cyflwyno cais ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 ac os nad yw wedi cofrestru erbyn 15 Hydref 2018, anfonir gwahoddiad i optio i mewn. Os yw'n penderfynu peidio ag optio i mewn, caiff ei gofnod ei newid i 'peidiwch â chysylltu'. Fodd bynnag, caiff y data personol ei storio yn y CRM tan ddiwedd y cyfnod cadw neu nes y ceir cyfarwyddyd i'w ddileu |

**Pa wybodaeth rydym yn ei derbyn gan drydydd partïon?**

Fel rhan o'ch cais i ddod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, gallwn dderbyn eich cais, neu wybodaeth arall am eich cais, gan ffynonellau allanol. Mae'r ffynonellau'n cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

| Data y gallwn ei dderbyn | Ffynhonnell |
|---|---|
| Data am eich cais, gan gynnwys manylion cyswllt a chyrhaeddiad, profiad gwaith, sefydliad blaenorol, data cyd-destunol a gwybodaeth am anableddau. | UCAS, prosiectau ysgoloriaeth ymchwil megis M2A, KESS II a Chynghorau Ymchwil y DU, Y Coleg, Erasmus, CAB, Kaplan a/neu sefydliadau addysg uwch eraill, er enghraifft os yw'ch rhaglen astudio'n cynnwys treulio cyfnod mewn sefydliad ar wahân i Brifysgol Abertawe. |
| Geirdaon | Eich canolwr dewisol. |

| | |
|---|---|
| Eich statws a’ch hanes mewnfudo | Y Swyddfa Gartref (UKVI), y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. |
| Trawsgrifiadau (manylion am raglenni rydych yn ymgymryd â nhw, neu wedi ymgymryd â nhw, mewn sefydliad arall a'ch cyrhaeddiad) | Cyrff dyfarnu, HEDD, sefydliad arall a/neu ysgolion uwchradd. |
| Cadarnhad eich bod wedi bodloni gwiriadau | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Gwiriadau'r Heddlu, ATAS, y GIG |
| Cymhwysedd ar gyfer Y Coleg neu Brifysgol Abertawe | Menter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Navitas sy'n darparu cyrsiau llwybrau yw Y Coleg. Y Coleg, Prifysgol Abertawe yw olynydd y coleg a oedd wedi'i ymgorffori ym Mhrifysgol Abertawe dan yr enw Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe (ICWS) o’r blaen. Os nad yw myfyriwr yn bodloni gofynion mynediad Prifysgol Abertawe ar gyfer cyrsiau, efallai y bydd yn gymwys i astudio yn Y Coleg yn lle hynny. Felly, bydd Y Coleg a Phrifysgol Abertawe'n rhannu'r cais at ddibenion prosesu. |

**Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?**

Oni bai bod hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, ni chaiff eich data ei rannu â sefydliadau y tu allan i'r Brifysgol. Fodd bynnag, pan fo angen, caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu i ddarparu gwasanaeth recriwtio a derbyn myfyrwyr ac i gefnogi'r broses.

Mae'r adran hon yn rhestru'r prif sefydliadau byddwn yn datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr iddynt a'r amgylchiadau mwyaf cyffredin. Os yw hyn yn cynnwys trosglwyddo rhyngwladol, ni chaiff gwybodaeth ei throsglwyddo oni bai bod yr amgylchiadau'n bodloni'r amodau a bennir gan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data gyfredol. Mae'r ffynonellau'n cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

| Data y gallwn ei rannu | Derbynwyr |
|---|---|
| Ymholiadau (neu fynegiannau o ddiddordeb) | Gallwn rannu eich ymholiad yn fewnol â cholegau'r Brifysgol fel y gallant ymateb i'ch ymholiad. |
| Data o'ch cais, gan gynnwys manylion cyswllt a chyrhaeddiad, profiad gwaith, sefydliad blaenorol, data cyd-destunol a gwybodaeth am anableddau. | Gallwn rannu eich data'n fewnol â cholegau'r Brifysgol fel y gallant asesu eich cymhwysedd i ddod yn fyfyriwr yn Abertawe. |
| Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion mewnfudo (pan fo'n ofynnol) | Mae'r Brifysgol wedi'i thrwyddedu i noddi myfyrwyr mudol, yn ôl system ar sail |

| | |
|---|---|
| | pwyntiau. Bydd y Brifysgol yn darparu data i'r Swyddfa Gartref i gael rhif Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS). Mae rhif CAS yn galluogi myfyrwyr i gyflwyno cais am Fisa Myfyriwr. Bydd y Brifysgol hefyd yn darparu data am fyfyrwyr ar Fisa Myfyriwr i'r Swyddfa Gartref a'i hadrannau er mwyn cyflawni dyletswyddau ei thrwydded. |
| Cymhwysedd am Y Coleg neu Brifysgol Abertawe | Menter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Navitas sy'n darparu cyrsiau llwybrau yw Y Coleg. Y Coleg, Prifysgol Abertawe yw olynydd y coleg a oedd wedi'i ymgorffori ym Mhrifysgol Abertawe dan yr enw Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe (ICWS) o'r blaen.<br><br>Os nad yw myfyriwr yn bodloni gofynion mynediad ar gyfer cyrsiau Prifysgol Abertawe, efallai y bydd yn gymwys i astudio yn Y Coleg. Felly caiff y cais ei rannu â'r Coleg at ddiben prosesu. |
| Data o'ch cais megis cymwysterau pan fo'n berthnasol. | Mae ECCTIS yn cynghori sefydliadau fel ni ar gymharu cymwysterau rhyngwladol â lefelau fframwaith cymwysterau'r DU. Maent yn gwneud hyn drwy asesu'r cymhwyster drwy eu porth ar-lein. |
| Data o'ch cais megis diweddariadau ar y gweithgarwch prosesu. | I noddwyr a rhieni pan gafwyd cydsyniad. |
| Data o'ch cais | Sefydliadau addysg uwch eraill, er enghraifft, os yw eich rhaglen astudio'n cynnwys treulio cyfnod mewn sefydliad ar wahân i Brifysgol Abertawe. |
| Manylion Personol | Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth â Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru i gefnogi'r broses olrhain cysylltiadau pan fo hynny'n ofynnol. |
| Bydd unrhyw ddatgeliadau eraill a wneir gan y Brifysgol yn unol â deddfwriaeth diogelu data a GDPR y DU, a chaiff eich buddiannau chi eu hystyried. | |

**Trosglwyddo eich Gwybodaeth yn Rhyngwladol**

Ni fyddwn fel rheol yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r UE. Os byddwn yn trosglwyddo data, rydym yn gwneud yn siŵr bod lefel debyg o ddiogelwch yn cael ei rhoi drwy sicrhau bod un o'r mesurau diogelwch canlynol ar waith:

- Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data personol i wledydd eraill oni bai bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi barnu eu bod yn cynnig lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer data personol. Am ragor o fanylion, gweler European Commission: Adequacy of the protection of personal data in non-EU countries.
- Pan geir cytundeb cyfreithiol-rwymol rhwng awdurdodau neu gyrff cyhoeddus.
- Pan fyddwn yn defnyddio darparwyr gwasanaeth priodol, gallwn ddefnyddio contractau penodol a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n rhoi'r un lefel o ddiogelwch i ddata personol ag sydd ar gael yn Ewrop. Am fanylion pellach, gweler European Commission: Model contracts for the transfer of personal data to third countries.
- Pan fyddwn yn defnyddio darparwyr yn yr UD, gallwn drosglwyddo data iddynt os ydynt yn rhan o'r Privacy Shield sy'n gofyn eu bod yn rhoi lefel o ddiogelwch i ddata personol a rennir rhwng Ewrop a'r DU. Am ragor o fanylion, gweler European Commission: EU-US Privacy Shield.

Cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y dull penodol a ddefnyddir gennym ni wrth drosglwyddo eich data personol y tu allan i'r DU.

**Am ba gyfnod caiff eich gwybodaeth ei chadw?**

Diogelwch eich gwybodaeth

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn gosod dyletswydd arnom i gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Mae hyn yn golygu y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, a chaiff yr holl gamau priodol eu cymryd i atal mynediad a datgeliad nad ydynt wedi cael eu hawdurdodi. Ni chaiff neb ei awdurdodu i gyrchu eich gwybodaeth, ac eithrio'r aelodau staff hynny y mae angen iddynt gyrchu rhannau perthnasol o'ch gwybodaeth, neu'ch holl wybodaeth. Bydd gwybodaeth electronig amdanoch yn cael ei diogelu trwy gyfrineiriau a chyfyngiadau diogelwch eraill, a chedwir ffeiliau papur mewn ardaloedd diogel lle rheolir mynediad.

Gall rhywfaint o brosesu gael ei wneud ar ran y Brifysgol gan sefydliad sydd dan gontract i wneud hynny. Bydd sefydliadau sy'n prosesu data personol ar ran y Brifysgol dan rwymedigaeth gytundebol i brosesu data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

**Pa hawliau sydd gennych?**

Mae gennych hawl i weld eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, cywiro, dileu, cyfyngu a throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol. Os ydych chi wedi rhoi cydsyniad i Brifysgol Abertawe brosesu unrhyw ran o'ch data, mae gennych hawl i dynnu'r

cydsyniad hwnnw yn ôl hefyd. Ewch i dudalennau gwe Diogelu Data y Brifysgol i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau.

Dylid cyflwyno ceisiadau neu wrthwynebiadau'n ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol: -

Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol

Gwasanaethau Digidol

Lefel 7

Parc Singleton

Abertawe

SA2 8PP

E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

**Diweddaru eich dewisiadau**

Byddwch yn gallu diweddaru eich dewisiadau unrhyw bryd ar-lein gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych yn ystod y broses recriwtio a derbyn. Mae'r ffurflen dewisiadau ar gael yma.

**Canlyniadau peidio â darparu data pan fo gofyniad statudol neu gytundebol i wneud hynny**

Yn anffodus, ni fydd y Brifysgol yn gallu prosesu eich cais os ydych chi'n gwrthod darparu'r wybodaeth angenrheidiol pan fo hyn yn seiliedig ar ofyniad cytundebol neu statudol.

**Sut i wneud cwyn**

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd mae'ch data personol wedi cael ei brosesu, yn y lle cyntaf gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn anfodlon wedi hynny, mae gennych hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael penderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Swydd Gaer

SK9 5AF

www.ico.org.uk

**Eich cyfrifoldebau**

Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod gennym y manylion personol cywir amdanoch. Yn ystod eich astudiaethau, mae'n bosib y bydd gennych fynediad at wybodaeth bersonol am bobl eraill. Disgwylir i chi drin hon mewn modd cyfrifol a phroffesiynol ac mae gofyniad cyfreithiol i chi wneud hyn yn ôl deddfwriaeth diogelu data, yn ogystal ag unrhyw godau ymddygiad neu foeseg proffesiynol. Os ydych chi'n dod yn ymwybodol o wybodaeth bersonol gyfrinachol, disgwylir i chi beidio â rhannu hon â neb heb gydsyniad yr unigolyn, oni bai bod yr amgylchiadau'n eithriadol. Yn ogystal, ni ddylech geisio mynediad at ddata personol pobl eraill os nad oes gennych hawl. Ystyrir cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw aelod o'r Brifysgol sy'n gweithredu'n groes i ddeddfwriaeth diogelu data neu ddyletswydd cyfrinachedd.

Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau diogelu data ar waith a gellir eu gweld yma.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein Datganiad Preifatrwydd Data yma.

**Adolygwyd a Diweddarwyd: Mehefin 2025**